Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

**Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol**

**Cynllun Iaith Gymraeg – Adroddiad 2013/14**

## Cyflwyniad

Dyma adroddiad yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (ACC) ar weithrediad ei Chynllun Iaith Gymraeg yn seiliedig ar weithgareddau a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod Ebrill 2013 a Mawrth 2014.

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn gan ystyried y fframwaith ar gyfer monitro ac adrodd fel y cytunwyd arno gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Medi 2010.

## Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Yr oedd cynllun diwygiedig yr ACC a gyflwynwyd yn 2009 yn rhoi manylion gweithgareddau a gynlluniwyd dros y tair blynedd hyd at 2012. Ymestynnwyd hyn i 2013 ac ar hyn o bryd rydym yn y broses o ail-gyhoeddi ein cynllun i adlewyrchu'r newid yn ein statws i Asiantaeth Weithredol ac rydym yn rhagweld yr anfonir y cynllun at y Comisiynydd am gymeradwyaeth yn fuan.

Mae'r tabl isod yn nodi ein cynnydd yn erbyn y gweithgareddau yn ein Cynllun Iaith Gymraeg hyd yma.

| Cynllun yr ACC – Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt | Cynllun yr ACC – Amserlen Gychwynnol | Cynnydd yn ystod 2013-2014 |
|---|---|---|
| Polisïau a Mentrau Newydd (paragraff 4)<br>1. Rhoi statws cyfartal i'r iaith Gymraeg mewn unrhyw bolisïau a gweithdrefnau newydd a ddatblygir neu wrth ystyried effaith polisïau a mentrau'r llywodraeth. | Byddwn yn gweithredu proses ffurfiol er mwyn sicrhau bod unrhyw bolisïau a gweithdrefnau newydd yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan y cynllun hwn o fewn 6 mis i'w weithredu. | Cwblhawyd gweithredu<br>Mae ein dogfennau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cynnwys gofynion i ystyried darpariaeth Gymraeg mewn unrhyw bolisïau a gweithdrefnau newydd sy'n cael eu gweithredu. |
| Gwefannau Rhyngrwyd (paragraff 32)<br>2. Gwefan Cyngor Cyfreithiol Cymunedol – bydd ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Byddwn hefyd yn cynnal | Cynllun gweithredu yn ei le i fodloni hyn. Byddwn yn cynnal adolygiad llawn sy'n rhoi sylw i ddarparu gwybodaeth yn ddwyieithog ar wefan y | Cwblhawyd gweithredu<br>Ers yr adroddiad diwethaf, mae cynnwys ein gwefan bellach ar wefan Justice.gov.uk. Lle bo'n briodol, rydym yn cyhoeddi gwybodaeth yn ddwyieithog |

| **Cynllun yr ACC – Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt** | **Cynllun yr ACC – Amserlen Gychwynnol** | **Cynnydd yn ystod 2013-2014** |
|---|---|---|
| adolygiad llawn sy’n rhoi sylw i ddarparu gwybodaeth yn ddwyieithog ar ein gwefannau. | Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ac yn dyfeisio cynllun gweithredu i gynyddu cynnwys dwyieithog y safle hwn o fewn 6 mis i weithredu'r cynllun. | e.e. ffurflenni cymorth cyfreithiol sydd wedi’u hanelu at y cyhoedd. |
| Cyhoeddiadau (paragraff 30)<br>3. Bydd unrhyw ddeunyddiau a gyhoeddir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru’n cael eu cynhyrchu’n ddwyieithog mewn un ddogfen oni bai fod maint neu gymhlethdod y ddogfen yn golygu bod angen fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. | Wedi’i weithredu eisoes ac yn barhaus ar gyfer dogfennau sy’n cael eu cynhyrchu yng Nghymru. Byddwn yn sicrhau bod yr holl ddeunyddiau eraill a gyhoeddir yn bodloni’r gofyniad hwn lle bo hynny’n rhesymol ac yn ymarferol. O fewn 6 mis i fabwysiadu’r cynllun byddwn yn adolygu’r holl gyhoeddiadau ar gyfer y cyhoedd ac yn paratoi cynllun gweithredu. | Cwblhawyd gweithredu<br>Rydym yn parhau i gyhoeddi Adroddiad Blynyddol yr Asiantaeth yn ddwyieithog. Byddwn yn ystyried cyfieithu unrhyw ddogfennau ychwanegol a gyhoeddir gennym yn y dyfodol o ganlyniad i’n newid i’r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. |
| <u>Mesurau ar gyfer delio â’r cyhoedd (paragraff 26)</u><br>4. Byddwn yn ymgynghori â’n cyflenwyr ar gontract yng Nghymru er mwyn datgan pa wasanaethau dwyieithog ychwanegol ddylen ni eu darparu ac, os yw hynny'n rhesymol, byddwn yn gweithredu'r gwasanaethau hynny. | Byddwn yn cynnal arolwg ar ein darparwyr o fewn 3 mis i weithredu’r cynllun hwn er mwyn penderfynu pa wasanaethau dwyieithog ychwanegol fyddant eu hangen a, lle bo hynny’n rhesymol, byddwn yn llunio cynllun gweithredu i weithredu’r gwasanaethau hynny. | Cwblhawyd gweithredu.<br>Rydym yn parhau i gynnal y ddarpariaeth iaith Gymraeg bresennol yn yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. |

| Cynllun yr ACC – Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt | Cynllun yr ACC – Amserlen Gychwynnol | Cynnydd yn ystod 2013-2014 |
|---|---|---|
| Gohebiaeth a Phresenoldeb Personol (paragraffau 15 a 25)<br>5. Byddwn yn cadw cofnod cyfredol o enwau’r unigolion a’r sefydliadau sydd wedi mynegi dymuniad i dderbyn gohebiaeth ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg. | Byddwn yn cyflwyno system i sefydlu dewis iaith wrth gysylltu am y tro cyntaf ac yn cofnodi’r dewis ar gyfer ei ddefnyddio yn y dyfodol drwy sicrhau bod ffeiliau a chofnodion wedi’u marcio’n glir.<br>Byddwn hefyd yn cyflwyno system i gofnodi manylion yr unigolion a’r sefydliadau sydd wedi mynegi dymuniad i dderbyn gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>Y ddau o fewn 6 mis i weithredu’r cynllun hwn. | Mae’r system yn ei lle.<br>Pan fydd pobl yn cysylltu â’r Asiantaeth drwy gyfrwng y Gymraeg rydym yn parhau i gofnodi eu manylion yn ganolog. |
| <u>Gweithredu, monitro a chyhoeddi’r Cynllun (paragraff 47)</u><br>6. Croesewir awgrymiadau ar gyfer gwella ein gwasanaethau yn y Gymraeg hefyd a byddant yn cael eu hystyried fel rhan o’n proses fonitro. | Byddwn yn cyflwyno system o fewn 6 mis i weithredu’r cynllun hwn i ymgynghori ag ymwelwyr Cymraeg eu hiaith sy’n dod i’n swyddfeydd ynghylch ein gwasanaethau Cymraeg, er mwyn sefydlu unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwelliannau. Gwneir darpariaeth i weithredu’r awgrymiadau hyn os yw’n rhesymol gwneud hynny. | Cwblhawyd gweithredu.<br>Rydym yn parhau i hysbysebu ein gwasanaethau iaith Gymraeg yn ein derbynfa yn ogystal â hysbysebu ein rhif ffôn iaith Gymraeg ar ohebiaeth a thrwy neges wedi’i recordio ar y gwasanaeth Saesneg. |

**Prif-ffrydio’r Iaith Gymraeg**

Er mwyn sicrhau bod darpariaeth Gymraeg yn cael ei hystyried cyn gynted ag y bo modd, mae ysgogiadau wedi cael eu cynnwys yn ein dogfennau safonol ar gyfer asesiad o’r

effaith ar gydraddoldeb mewn perthynas â gweithredu polisi'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Bydd y rhain yn cael eu hystyried ar y dechrau mewn unrhyw fentrau i weithredu polisïau newydd.

Bydd cyfrifoldeb am ein Cynllun Iaith Gymraeg yn trosglwyddo i'n tîm Llywodraethu Canolog yn ystod 2014/15. Bydd hyn yn rhoi mwy o gyfle ar gyfer ystyried gofynion yr iaith Gymraeg ynghynt wrth roi polisïau a phrosiectau newydd ar waith.

Mae'r staff Cymraeg eu hiaith yn dal i allu defnyddio Cysgliad a Microsoft Cymraeg ar ein system Technoleg Gwybodaeth fewnol.

Mae ein contractau gyda darparwyr yn cynnwys cymalau penodol ynghylch darparu gwasanaethau iaith Gymraeg i gleientiaid cymorth cyfreithiol yng Nghymru fel mater o drefn. Rydym wedi cynnal sawl proses dendro ar gyfer gosod contractau newydd yn ystod y cyfnod adolygu hwn ac rydym ar fin ail-dendro ein contractau troseddol yn ystod 2014/15.

**Dangosyddion Perfformiad**

**DP 1 Gwasanaethau Rheng Flaen**
Ar hyn o bryd mae gennym ni 2 aelod o staff dwyieithog sy'n gofalu'n llawn amser am ein gwasanaethau Cymraeg ac sy'n cyfrif am 8% o'r tîm gwasanaethau cwsmeriaid yng Nghymru. Maent yn gofalu am y llinell Gymraeg ac hefyd yn helpu gyda phrawf ddarllen a chyfieithiadau ad hoc. Hefyd, mae gennym ni 2 aelod o staff dwyieithog ychwanegol mewn gwahanol adrannau yn y swyddfa yng Nghymru sy'n gallu derbyn cyfrifoldeb am y gwasanaethau Cymraeg os oes angen.

Byddwn yn derbyn adborth cadarnhaol yn rheolaidd gan ein darparwyr ynghylch ein gwasanaethau rheng flaen yn yr iaith Gymraeg gan gynnwys adborth diweddar gan un darparwr mai dyma'r gwasanaeth gorau a ddarparwyd gan yr ACC.

Rydym yn cadw cofnodion misol o'r galwadau ffôn rydyn ni'n eu derbyn ar y llinell ffôn Gymraeg. Yn ystod y cyfnod o Ebrill 2013 hyd at ddiwedd Mawrth 2014, bu i ni dderbyn 837 o alwadau, gostyngiad o 95 o alwadau ar y 12 mis blaenorol. Gallai hyn fod o ganlyniad i ostyngiad mewn gwaith cymorth cyfreithiol ers cyflwyno'r Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (LASPO) a gellir gweld effaith debyg ar nifer y galwadau i'r gwasanaeth Saesneg.

**DP 2 Darparu Gwasanaethau Drwy Drydydd Partïon**
Mae ein holl gontractau cymorth cyfreithiol gyda'n darparwyr wyneb yn wyneb yn cynnwys gofynion penodol bod rhaid iddynt allu darparu gwasanaeth Cymraeg yng Nghymru. Mae cwmnïau'n cydymffurfio naill ai drwy gyflogi siaradwyr Cymraeg eu hiaith neu mae ganddynt weithdrefnau yn eu lle i ddarparu gwasanaeth Cymraeg drwy gyfeirio at gyfreithwyr Cymraeg eu hiaith os yw cleient yn gofyn am hynny.
Yn ogystal, rydym yn ariannu cyngor dros y ffôn drwy gontractau Cymorth Cyfreithiol Sifil. Mae modd i gleientiaid sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn siarad â gweithredwyr Cymraeg eu hiaith.

**DP 3 Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth Iaith**

Dyrennir amser ar gyfer hyfforddi a datblygu i'r holl staff.  Ar hyn o bryd mae 4 aelod o staff yn dilyn hyfforddiant iaith Gymraeg a ddarperir gan GLlTEM i wella sgiliau iaith Gymraeg.  Bu hwn yn adnodd amhrisiadwy y bu modd i ni gymryd rhan ynddo. Yn ystod y flwyddyn i ddod, mae rhai o'n staff presennol sy'n gallu siarad Cymraeg yn bwriadu cymryd rhan mewn cyrsiau sgwrsio a redir gan GLlTEM i gynyddu'u hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar.

**DP 4 Technoleg Gwybodaeth**

Mae ein system TG newydd ar gyfer materion cyngor cyfreithiol sifil yn cael ei chyflwyno yn ystod 2014. Mae gohebiaeth ac unrhyw ddatganiadau sy'n gofyn am lofnod y cleient ar gael yn Gymraeg.

**DP 5 Gweinyddu'r Cynllun**

Ni dderbyniwyd unrhyw gŵyn ynghylch ein gwasanaethau iaith Gymraeg eleni. Rydym yn parhau i dderbyn adborth cadarnhaol ynghylch ein gwasanaethau rheng flaen yn yr iaith Gymraeg fel yr amlinellwyd uchod.

**Casgliad**

Rydym yn falch o adrodd y bu modd i ni barhau i ddefnyddio gwasanaethau iaith Gymraeg o ansawdd uchel yn yr hinsawdd bresennol. Rydym yn parhau i fod yn ymroddedig i'n rhwymedigaethau o ran yr iaith Gymraeg ac edrychwn ymlaen at gyhoeddi ein cynllun newydd yn gynnar yn 2014/15.

Matthew Coats
Prif Weithredwr, yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol